Strategaeth Dreftadaeth Wrecsam 2018 – 2028

Creu Cysylltiadau

1. Cyflwyniad

1.1. Mae ein treftadaeth yn **'adnodd penodol ac anhepgor'** mae'n cynrychioli'r profiad a rennir rhyngom ni a'n cyndadau; mae'n darparu synnwyr o ddealltwriaeth o'r hunan a'r gymuned ac mae'n darparu gwersi ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Mae treftadaeth hefyd yn yrrwr economaidd pwysig. Yng Nghymru mae'r sector yn cefnogi bron i 40,000 o swyddi, mae'n creu £749m ac mae ddwywaith maint, er enghraifft, y sector amaethyddol. Yn ei dro mae treftadaeth yn ffactor fawr yn llwyddiant Gogledd Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr, a nodwyd yn ddiweddar fel y 4ydd lle gorau i ymweld ag ef yn y Byd gan Lonely Planet.

1.2. **'Mae Treftadaeth nid yn unig yn ymwneud â diogelu'r gorffennol ond hefyd mae'n ymwneud â sut y gall gyfrannu at y dyfodol'** – dyna ddywed strategaeth dreftadaeth gyntaf Wrecsam a gyhoeddwyd yn 2005 ac mae mor wir nawr ac ydoedd bryd hynny. Roedd y strategaeth gyntaf yn sefydlu gweledigaeth fyddai'n: -

'Galluogi llawn botensial ein treftadaeth i ffynnu, fel y gall gyfrannu cymaint â phosibl a chyfoethogi pob agwedd ar fywyd yn y Fwrdeistref Sirol, er budd y trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd'

1.3. Ond ers cyhoeddi'r strategaeth ddiwethaf, mae gogledd ddwyrain Cymru wedi newid yn sylweddol. Mae'r daeargrynfeydd economaidd wedi arwain at 'oes o galedi' a thoriadau na welwyd eu tebyg o'r blaen mewn gwariant cyhoeddus, sydd wedi effeithio ar wasanaethau anstatudol fel treftadaeth. Yn Wrecsam rydym wedi gweld amgueddfeydd yn y Mwynglawdd, Gwaith Haearn y Bers a Chanolfan Dreftadaeth y Bers ar gau i'r cyhoedd gydag ystyriaeth yn cael ei roi hyd yn oed i'r potensial o drosglwyddo gwasanaethau treftadaeth o reolaeth awdurdod lleol.

1.4. O ystyried y cyd-destun hwn mae'r strategaeth newydd hon, **Creu Cysylltiadau**, yn ceisio hyrwyddo sector treftadaeth yn Wrecsam sy'n wydn a chynaliadwy, a sy'n ceisio defnyddio treftadaeth yn effeithiol fel arf ar gyfer adfywiad economaidd ac ar gyfer ymgysylltu.

2. Felly pam mae angen Strategaeth Dreftadaeth arnom ni?

2.1. Ymwneud â hynny mae **Creu Cysylltiadau.** Mae nifer o gyrff, grwpiau, unigolion a chymdeithasau sy'n angerddol tuag at dreftadaeth Wrecsam, nifer ohonynt yn ei chael yn anodd o ganlyniad i ddiffyg cyllid; synnwyr o gyfeiriad; ac efallai diffyg uchelgais hyd yn oed. Rydym yn credu y byddai ein treftadaeth yn elwa o ymagwedd ar y cyd lle mae grwpiau ac unigolion yn cydweithredu i gyflawni amcanion cyffredin a cheisio cyfleoedd ar y cyd. Byddai hyn o fudd gan greu treftadaeth nad yw'n cael ei weld fel rhywbeth sy'n faich ond sy'n ased y gall y gymuned gyfan ei fwynhau, yn ogystal â darparu hwb sylweddol i economi'r Fwrdeistref Sirol.

2.2. Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Awdurdodau Lleol i greu Cymru gyda **'diwylliant Cymreig bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'** ac mae '**diogelu asedau amgylcheddol hanesyddol**

Cymru' yn cael ei weld fel mesur allweddol o lwyddiant. Dylid ystyried Strategaeth Dreftadaeth Wrecsam fel ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i agweddau treftadaeth y fenter arloesol hon gan Lywodraeth Cymru.

2.3. Ar lefel sylfaenol ein bwriad yw i'r strategaeth ddarparu 'cyfeiriad' ar gyfer gwasanaethau treftadaeth y Fwrdeistref Sirol ar gyfer y ddegawd nesaf. Ond yn fwy na hynny mae'n ceisio darparu templed uchelgeisiol ar gyfer gwarchod, dehongli a hyrwyddo'r dreftadaeth yn ehangach ac o ganlyniad defnyddio treftadaeth yn fwy effeithiol fel gyrrwr adfywiad economaidd. Yn olaf, ac efallai'n bwysicaf, mae'n ceisio annog ein cymunedau amrywiol i ymgysylltu gyda'u treftadaeth a sicrhau fod y gwasanaethau sy'n hybu'r ymgysylltiad hwnnw yn gynaliadwy a gwydn.

3. Treftadaeth y Fwrdeistref Sirol

3.1. Mae gan Fwrdeistref Sirol Wrecsam dystiolaeth sy'n mynd yn ôl i'r cyfnod Neolithig (4000 i 2300 CC) o leiaf fod bodau dynol wedi preswylio yma. Mae'r safle a gloddiwyd yn ddiweddar yn Chwarel Borras ar gyrion dwyreiniol y dref. Mae dosbarthiad o feddrodau crwn neu domenni claddu yn uwchdiroedd gorllewin y Fwrdeistref Sirol yn dystiolaeth o'r Oes Efydd (2300 i 800CC) ac mae enghreifftiau yma ac acw mewn mannau eraill. Yn fwyaf nodweddiadol o'r cyfnod hwn, mae casgliad pwysig o waith aur trawiadol ac arteffactau cysylltiedig wedi eu canfod yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol. Fel mewn ardaloedd eraill o ogledd ddwyrain Cymru caiff Oes yr Haearn ei chynrychioli bron yn llwyr gan fryngaerau ac mae gan y Fwrdeistref Sirol enghreifftiau nodedig ym Mryn Alun, Llai a'r Gardden, Rhiwabon.

3.2. Mae goresgyniad y Rhufeiniaid o 43 OC hyd y 4edd ganrif OC hefyd wedi gadael ei farc, er bod ein dealltwriaeth o archeoleg Rufeinig gogledd ddwyrain Cymru yn dal yn anghyflawn iawn.

Mae'r gaer enfawr ar gyfer *Legio XX VV* yng Nghaer yn gosod cysgod mawr dros archeoleg Rufeinig yr ardal hon, gyda safleoedd hysbys yn Ffrith (sy'n union y tu allan i Fwrdeistref Sirol Wrecsam) a Holt ac ym Mhlas Coch ar

ochr ddwyreiniol Wrecsam. Ond mae

safleoedd newydd a rhai gyda’r potensial o fod yn bwysig yn cael eu datgelu yn Chwarel Borras, ger Burton ac o bosib ger Holt. Pe bai’r rhain yn cael eu cadarnhau byddent yn newid ein dealltwriaeth o’r cyfnod hwn yn sylweddol.

3.3. Yn y cyfnodau hanesyddol, mae lleoliad y rhan yma o Gymru ar y ffin gyda Lloegr i’r dwyrain yn dylanwadu’n fawr ar ei chymeriad. Mae presenoldeb nodedig cloddiau Offa a Wat yn croesi’r Fwrdeistref Sirol yn tystio i’w statws dadleuol p’run ai’n Sacsonaidd, Cymreig neu Normanaidd. Safleoedd amddiffynnol sy’n dylanwadu ar yr archeoleg p’run ai yn gestyll (yn benodol yn Holt, Y Waun ac Erddig); safleoedd wedi'u hamgylchynu gan ffosydd neu gloddiau: Maelor Saesneg sydd ag un o’r crynodiadau dwysaf o safleoedd o’r fath yn y DU. Mae’r ardal hefyd yn gartref i nifer o eglwysi anghyffredin o gain, nifer o elwodd o nawdd y Fonesig Margaret Beaufort, mam Harri'r VII.

3.4. Bwrdeistref Seisnig Holt sydd fwy na thebyg â’r anheddiad mawr pwysicaf hyd nes y lladdodd y Pla Du y boblogaeth leol yn y 14eg ganrif. Roedd safle manteisiol Wrecsam yn economaidd, 6 milltir o’r ffin gyda Lloegr ac ar gyrion uwchdiroedd Cymru, yn golygu ei fod yn fuan wedi dod yn anheddiad heb ei debyg gyda'i farchnadoedd lleol eiconaidd yn gyrru ei ffyniant economaidd.

3.5. Arweiniodd yr elwa cynyddol ar adnoddau glo, haearn, plwm a chlai yr ardal o’r 17eg ganrif ymlaen at ddatblygiad diwydiannau rhanbarthol pwysig. Yn fwyaf nodedig oedd y diwydiant haearn a dur, wedi eu canoli i gychwyn mewn ardal o'r Bers i Riwabon yn y 17eg a'r 18fed ganrif, ond gyda gweithfeydd pwysig diweddarach yn arbennig ym Mrymbo. Roedd plwm wedi’i gloddio o'r Mwynglawdd ers o leiaf y cyfnod canoloesol hyd ddechrau’r 20fed ganrif a chafodd yr adnoddau clai o fewn yr



haenau glo eu datblygu ar gyfer y diwydiant briciau, teils a terracotta yn ardal Rhiwabon.

3.6. Roedd maes glo Sir Ddinbych yn cynnwys nifer o lofeydd dwfn yn ogystal â'r cymunedau nodedig a'u hamgylchynai yn arbennig yng Ngresffordd, Llai a Rhostyllen, i enwi dim ond rhai. Pwll glo’r Bers oedd yr olaf i gau yn 1986 wedi i’r gwaith o greu dur yng ngweithfeydd dur Shotton ar yr arfordir ddod i ben.

3.7. Ymhlith henebion pwysig ein treftadaeth ddiwydiannol mae Gwaith Haearn y Bers, a Gwaith Dur Brymbo, y ddau'n gysylltiedig â'r meistr haearn enwog John Wilkinson. Mae nifer o weddillion sydd wedi goroesi i'w gweld

ym Mhyllau Plwm y Mwynglawdd, yn fwyaf nodedig yn Nhŷ'r Injan. Caiff cloddio am lo ei ddarlunio orau yng nglofa'r Bers, lle mae pen y pwll wedi goroesi fwy neu lai yn gyfan ac yn cynnwys ffrâm y pen, y tŷ injan weindio a chyn adeiladau glofaol eraill gan gynnwys bathdy sydd nawr wedi ei drawsnewid yn ganolfan fenter. Mae yna weddillion pwysig hefyd ym Mhlas Power, Penrhos a Wynnstay, Rhiwabon. Yn olaf mae'r ardal yn cynnwys Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte sy'n cynnwys un o strwythurau nodedig ôl-ganoloesol y DU: y draphont ddŵr a adeiladwyd gan Thomas Telford ac a agorwyd yn 1805.

3.8. Nid yw safleoedd a henebion yn bodoli yn ynysig ac maent yn rhan o balimpsest cyfoethog o dirluniau hanesyddol. P'run ai yn fryn neu'n ddyffryn, yn wledig neu'n drefol; mae ein holl dirluniau yn rhannol hanesyddol o leiaf ac wedi eu llunio gan genedlaethau o weithgaredd dynol dros ganrifoedd olynol.

3.9. Mae gan Wrecsam enghreifftiau nodedig o dirluniau hanesyddol sydd wedi goroesi er enghraifft ar ffurf ardal cyn ddiwydiannol y 17eg ganrif i'r 19eg ganrif yng ngorllewin Wrecsam neu'r Maelor gyda'i chefnen a chwys a safleoedd wedi'u hamgylchynu gan ffosydd, sy'n weddillion annedd ganoloesol.

4. Y Sefyllfa Bresennol.

4.1. Sefydlwyd Gwasanaeth Treftadaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn 1996 ac mae'n gweithredu ac yn gyfrifol am nifer o wasanaethau cysylltiedig, safleoedd ac amgueddfeydd o amgylch y Fwrdeistref Sirol. Mae'r gwasanaeth

amgueddfeydd wedi ei leoli yn Amgueddfa'r Fwrdeistref Sirol yn Wrecsam sydd wedi ei achredu o dan y cynllun Achredu Amgueddfeydd. Mae'r cynllun, a weinyddir yng Nghymru gan Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru yn sicrhau fod amgueddfeydd sydd wedi eu hachredu yn cwrdd â safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol o ran gofalu am y casgliadau a chyfleusterau ymwelwyr.

4.2. Mae'r amgueddfa yn gyfrifol am tua 30,000 o wrthrychau yn ei chasgliad. Mae'r casgliadau wedi eu seilio yn bennaf ar hanes cymdeithasol ond gyda rhannau cryf yn ymwneud ag ardaloedd y cyn brif ddiwydiannau, yn arbennig glo; dur a briciau, teils a terracotta. Hefyd mae yna gasgliad archeolegol sy'n tyfu gan gynnwys Dyn Brymbo, claddfa o'r Oes Efydd gynnar a ganfuwyd ym Mrymbo yn 1958. Mae casgliad nodedig arall yn ymwneud â Phêl-droed Cymru.

4.3. Mae'r amgueddfa wedi datblygu enw da am ei rhaglen arddangosfa dros dro, nifer sydd wedi eu datblygu mewn partneriaeth gydag **Amgueddfa Cymru** a **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** yn ogystal â'r **Amgueddfa Brydeinig**. Mae gan yr amgueddfa fintai o wirfoddolwyr sy'n ffynnu a sy'n ymgymryd â nifer o rolau yn ymwneud â'r amgueddfa a hynny yn yr orielau a thu ôl i'r llenni. Mae rhai gwirfoddolwyr yn agos i roi dros 1000 o oriau o'u hamser. Mae'r amgueddfa yn trefnu nifer o weithgareddau addysgol ffurfiol ac anffurfiol, gyda tua 1600 o blant ysgol yn ymweld â'r amgueddfa bob blwyddyn. Mae ffigyrau blynyddol yr ymwelwyr â'r amgueddfa yn amrywio rhwng 35 a 50,000 yn dibynnu ar y rhaglen arddangos ac mae'r amgueddfa wedi ei chynnwys ar restr fer ar gyfer y wobr 'Amgueddfa Cyfeillgar i Deuluoedd' ddwywaith!

4.4. Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei fwriad i gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb i'r posibilrwydd o sefydlu **Amgueddfa Bêl-droed Cenedlaethol Cymru** yng Ngogledd Cymru ac o bosib yn Wrecsam. Os penderfynir lleoli'r amgueddfa yn Wrecsam, byddai amgueddfa o'r fath yn newid 'tirlun' treftadaeth y Fwrdeistref Sirol yn sylweddol. Nid oes yna unrhyw amgueddfeydd Cenedlaethol yng ngogledd ddwyrain Cymru a gallai rhywun ddisgwyl i gyfleuster o'r fath ddenu tua 80 i 100,000 o ymwelwyr, gyda'r dalgylch bosib yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wlad. Ar hyn o bryd rydym yn aros am benderfyniad Llywodraeth Cymru p'run ai y bydd yr amgueddfa'n mynd yn ei blaen ai peidio a phe bai'n gwneud hynny lle y bydd yn cael ei lleoli.

4.5. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am Ganolfan Treftadaeth y Bers, Gwaith Haearn y Bers, cyn lofa'r Bers, Pyllau Plwm y Mwynglawdd, Tŷ Injan Penrhos, Melin y Brenin a Chastell Holt. Mae toriadau mewn gwariant refeniw yn ystod y blynyddoedd diweddar wedi arwain at gau y rhan fwyaf o'r amgueddfeydd hyn i'r cyhoedd, gyda Chanolfan Dreftadaeth y Bers nawr yn cael ei defnyddio i storio casgliadau.

4.6. Mae'r gwasanaeth archifau hefyd wedi ei leoli yn yr amgueddfa ac mae'n cadw casgliadau archifol sydd wedi eu casglu ers adrefnu llywodraeth leol yn 1996.

4.7. Cyfrifoldeb y Tîm Cadwraeth yw amddiffyn yr amgylchedd adeiledig hanesyddol ac maent yn gweithio fel

rhan o'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae gan y Fwrdeistref Sirol nifer o adeiladau rhestredig ac mae'n defnyddio **Arolwg Adeilad mewn Perygl** i hyrwyddo cadwraeth yr adeiladau a'r strwythurau gyda'r angen mwyaf. Hefyd mae gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol gyllideb gyfalaf flynyddol bwrpasol i ariannu cadwraeth yr adeiladau a'r strwythurau sy'n eiddo i'r Cyngor.

4.8. Mae gan adrannau eraill y Cyngor hefyd gyfrifoldeb dros henebion hynafol neu hanesyddol sydd wedi eu lleoli ar dir y Cyngor; ymhlith yr enghreifftiau mae rhan o Glawdd Offa gyferbyn â'r amlosgfa ym Mhentrebychan a gweddillion beddrod o'r Oes Efydd ger Ysgol Uwchradd Sant Joseph yn Wrecsam.

4.9. Nid oes gan **Cadw**, corff Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddiogelu treftadaeth y genedl, unrhyw henebion y maent yn eu gwarchod y o fewn y Fwrdeistref Sirol, er eu bod yn ffynhonnell bwysig o ran cymorth grant i waith cadwraethol ar henebion cofrestredig.

4.10. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweithredu dau brif safle yn y Fwrdeistref Sirol sef Neuadd Erddig, ger Wrecsam, a Chastell y Waun. Rhyngddynt maent yn denu tua 300,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

4.11. Mae **Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys** wedi ymgymryd â nifer o gloddfeydd proffesiynol ar draws y Fwrdeistref Sirol mewn ymateb i fygythiadau o ran datblygu. Maent yn cynnal gweithgareddau pwysig o ran arolygon a gaiff eu hariannu gan Cadw, er enghraifft ar dirluniau hanesyddol neu archeoleg yn yr ucheldiroedd. Hefyd pan fo'r cyfle'n codi maent yn ymgymryd â gweithgareddau seiliedig ar y gymuned.

4.12. Mae yna nifer o gymdeithasau hanes lleol yn yr ardal, mae rhai wedi lleoli mewn ardaloedd penodol fel **Grŵp Treftadaeth Brymbo**, ac mae rhai yn ymwneud â phwnc, fel **Cymdeithas Ymddiriedolaeth Lofaol Gogledd Cymru.** Mae Partneriaeth Adfywio Cefn Mawr yn ceisio dod yn yrrwr fel etifeddiaeth y rhaglen Cynllun Etifeddiaeth Trefwedd a ddaeth i ben yn 2016. Mae Grŵp Brymbo yn benodol yn ymwneud ar hyn o bryd â phrosiect mawr a gaiff ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ddatblygu'r cyn safle gwaith dur a'r fforest ffosil gyferbyn.

4.13. Sefydlwyd **Fforwm Treftadaeth Wrecsam** o ganlyniad i'r strategaeth dreftadaeth gyntaf; roedd yn gweithredu fel sefydliad ambarél ar gyfer holl gymdeithasau hanes lleol y Fwrdeistref Sirol ond yn ddiweddar mae wedi ei ymgorffori i **Fforwm Treftadaeth Gogledd Ddwyrain Cymru**. Mae nifer o gymdeithasau hanes lleol drwy'r Fwrdeistref Sirol, nifer ohonynt yn weithgar yn eu cymunedau a rhai fel yn Llai, Glyn Ceiriog a Chefn Mawr wedi datblygu casgliadau bach ac amgueddfeydd eu hunain hyd yn oed.

4.14. Grŵp o wirfoddolwyr yw **Grŵp Darganfod Hen Dai** Gogledd Cymru ac maent yn ymchwilio a chofnodi hen dai a nawr maent yn gweithredu yng ngogledd ddwyrain Cymru.

5. Cyd-destun Strategol

5.1. Ni all yr un strategaeth fodoli yn ynysig; mae'n gorwedd o fewn fframwaith strategaethau eraill o berthnasedd amrywiol. Mae dealltwriaeth o'r cyd-destun strategol hwn yn bwysig gan ei fod yn dangos cydymffurfiaeth neu amrywedd y strategaeth gyda dyheadau cyrff eraill. Felly gellir ei ddefnyddio i ddenu cyllid a chefnogaeth.

5.2. Rydym eisoes wedi gweld fod **'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'** yn gosod y cyd-destun macro strategol gan Lywodraeth Cymru drwy osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i greu Cymru gyda 'diwylliant Cymreig bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Ar lefel mwy lleol mae **Cynllun Cyngor 2017-2022 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** yn canolbwyntio ar 3 prif elfen; yr Economi: Pobl a Lle. O'r prif ganlyniadau a restrir yn E1 mae 'Pobl eisiau byw, gweithio, dysgu, ymweld a buddsoddi yma' yn hynod berthnasol i'r strategaeth hon fel y mae canlyniad PE5 – 'Galluogi mynediad i weithgareddau hamdden a diwylliannol'.

5.3. Yn 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **'Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru'.** Mae'r ddogfen yn faniffesto diwylliannol sy'n annog Awdurdodau Lleol i lunio strategaethau diwylliannol. Mae datganiad Diwylliannol gan Gyngor Wrecsam yn cael ei baratoi o ganlyniad.

5.4. Cyhoeddwyd **'Strategaeth Amgueddfeydd Cymru'**, sy'n strategaeth arloesol gan Lywodraeth Cymru, yn 2010 ac roedd yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 2015. Hon oedd y strategaeth genedlaethol gyntaf ar gyfer y sector amgueddfeydd yn y DU ac roedd wedi ei threfnu o amgylch tair egwyddor arweiniol:

- **Amgueddfeydd i Bawb:** Bydd amgueddfeydd yn cyfrannu at gymunedau byw, yn hyrwyddo gwerthoedd cymdeithas deg a chyfiawn ac yn darparu cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb.
- **Casgliad i'r Genedl:** Bydd amgueddfeydd yn cadw, yn gofalu am ac yn parhau i ddatblygu casgliadau ar gyfer y genedl sy'n cynrychioli ein diwylliant cyfoethog ac amrywiol; ac yn
- **Gweithio'n Effeithiol:** Bydd amgueddfeydd yn rheoli eu safleoedd, gweithrediadau, casgliadau a'u pobl yn fwy effeithiol i barhau i ddarparu gwasanaethau sy'n berthnasol, yn gadarn ac yn gynaliadwy.

5.5. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i greu strategaeth newydd a fydd yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach yn 2018.

5.6. Yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad y Farwnes Andrew **'Diwylliant a Thlodi'**. Roedd yr adroddiad yn archwilio sut y gall cyrff diwylliannol a threftadaeth yng Nghymru gyfrannu yn fwy effeithiol at leihau tlodi a chynyddu uchelgais. Arweiniodd yr adroddiad at sefydlu rhaglen Cyfuno gyda nifer o ardaloedd arloesi yn cael eu sefydlu (gyda Wrecsam yn un) i dreialu ymagweddau newydd i annog cyfranogiad ac o ganlyniad mae ffrwd grant newydd gan Lywodraeth Cymru, **Grant Her Cyfuno**, wedi'i gyhoeddi i gyflwyno prosiectau ychwanegol ar draws y wlad.

5.7. Yn 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015**. Roedd yr adolygiad yn gwneud nifer o argymhellion pellgyrhaeddol gan gynnwys ar fodelau darparu gwasanaeth yn y dyfodol; rôl a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ac ar gydweithio rhwng sefydliadau.

5.8. Yn 2016 datblygwyd **Uwch Gynllun Canol Tref** ar gyfer Wrecsam a oedd yn ceisio darparu tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol oedd yn datblygu a fframwaith er mwyn marchnata'r dref ac annog buddsoddiad. Roedd y cynllun yn sefydlu gweledigaeth "**Bydd Wrecsam yn ganol tref deniadol, unigryw a gyda mynediad hawdd ar gyfer yr 21ain ganrif lle mae pobl eisiau byw, dysgu, gweithio, ymweld a buddsoddi yno."** Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys nifer o amcanion sy'n berthnasol i'r Strategaeth Dreftadaeth sef:

- **Gwella hunaniaeth canol y dref:** Mae angen pwynt gwerthu unigryw ar ganol y dref gyda chymysgedd o atyniadau i ddod yn gyrchfan cryf a deniadol gyda hunaniaeth gadarnhaol. Elfennau pwysig wrth gyflawni hyn yw treftadaeth, hynodrwydd lleol, diwylliant lleol a'r celfyddydau, amgylchedd adeiledig/dylunio da a gwneud lle;

- **Gwella profiad yr ymwelydd:** Cynyddu bywiogrwydd a hyfywedd canol y dref trwy wella atyniadau i ymwelwyr fel y celfyddydau a diwylliant, digwyddiadau, hamdden, cyfleusterau ar gyfer teuluoedd a thrwy gael amgylchedd deniadol, diogel, bywiog, o ansawdd uchel, glân ac wedi'i gynnal yn dda.

5.9. Cafodd **Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte**, sy'n cynrychioli un o fuddugoliaethau peirianneg y 18fed Ganrif, ei anrhydeddu gan UNESCO YN 2009. Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar **Gynllun Rheoli** newydd.

5.1. Mae gan **Gynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan 2018-20** Bwrdeistref Sirol Wrecsam nifer o amcanion allweddol:

- Gwella'r broses o reoli ymwelwyr a datblygu Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn ehangach drwy greu cysylltiadau cryfach gydag asedau treftadaeth eraill yn yr ardal.
- Datblygu Canol Tref Wrecsam fel canolfan ddiwylliannol ar gyfer Gogledd Cymru, gan ddatblygu ac amrywio'r cynnig manwerthu a bywiogi'r dref drwy ddigwyddiad unigryw a datblygiad pellach o ran llety.
- Datblygu'r gwaith presennol i roi 'synnwyr cryf o le' i Sir Wrecsam. Caiff hyn ei wneud wrth i fusnesau ddathlu asedau'r ardal (treftadaeth, bwyd a diod, yr amgylchedd a diwylliant).
- Adeiladu ar y brandio presennol 'Gogledd Ddwyrain Cymru' a 'Dyma Wrecsam' – drwy ddatblygu teithiau i ymwelwyr a chroesawu'r farchnad fasnach deithio.
- Mae angen mwy o arwyddion yn ymwneud â chynnyrch ac atyniadau gaiff eu harwain gan ymwelwyr i helpu i lywio ymwelwyr o gwmpas y sir, gan gysylltu'r rhain â theithiau allweddol neu gynnyrch (h.y. nodweddion gaiff eu harwain gan dreftadaeth).

5.2. Ym Mai 2018, cymeradwyodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y strategaeth Rheoli Cyrchfan newydd yn cynnwys cynllun gweithredu 3 blynedd. Mae'r cynllun hwn nawr yn anelu i fanteisio ar dwf yr economi twristiaeth sydd heddiw werth £116m y flwyddyn i'r Fwrdeistref Sirol – cynnydd o dros 38% ers 2009. Hefyd mae cynnydd wedi bod mewn twristiaeth dramor ac mae ymgyrch fywiog mewn grym i hyrwyddo Wrecsam a Gogledd Ddwyrain Cymru i ymwelwyr rhyngwladol a ddaw i Gymru drwy Gaergybi a Phorthladd Lerpwl. Mae ymchwil wedi dangos fod yna ddiddordeb cryf ymhlith y gynulleidfa hon mewn atyniadau a gaiff eu harwain gan dreftadaeth. Felly bydd mwy o gyfleoedd yn dod i'r amlwg i hyrwyddo treftadaeth Wrecsam unwaith y bydd y cynllun gweithredu newydd wedi dod i rym.

5.3. Prif fwriad y **Strategaeth Adeiladau mewn Perygl 2012-2016** yw i ddiogelu ein hasedau hanesyddol rhag dirywio a chael eu hesgeuluso, gan sicrhau y gofalir amdanynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn gan genedlaethau'r dyfodol. Y prif amcanion strategol yw:

- Gostwng nifer yr Adeiladau mewn Perygl.
- Rheoli asedau hanesyddol sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol i safon briodol.
- Sicrhau fod gwerth yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall.

5.4. Yn ystod y cyfnod o weithredu'r strategaeth mae nifer o adeiladau hanesyddol wedi eu hatgyweirio a'u defnyddio unwaith eto. Er hynny, mae nifer o safleoedd allweddol a strwythurau yn parhau naill ai mewn perygl neu mewn cyflwr bregus. Mae strategaeth newydd ar gyfer 2017-2021 yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gan ganolbwyntio ar themâu allweddol a fydd yn cyd-fynd â rhai'r Strategaeth Dreftadaeth gan gynnwys treftadaeth ddiwydiannol a Chanol Tref Wrecsam.

5.5. Yn 2011 cafodd **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd (AHNE)** ei ymestyn i gynnwys ardal yng ngorllewin y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys y Safle Treftadaeth Byd ei hun. Mae'r **Cynllun Rheoli AHNE 2014-2019** yn cynnwys nifer o argymhellion manwl yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn ogystal â mynediad, hamdden a thwristiaeth. Mae hefyd yn nodi nifer o amcanion a chamau gweithredu yn ymwneud â'r tirlun a henebion sy'n berthnasol iawn i'r Strategaeth Dreftadaeth. Er enghraifft, amcan **HSA03: 'Cynyddu proffil yr Amgylchedd Hanesyddol drwy ddehongli effeithiol a chyson'. WHS03: 'Sicrhau cysondeb o ran dehongli, arwyddion ac ansawdd y profiad ar draws awdurdodau'r bartneriaeth.'**

5.6. Mae blaenoriaethau strategol Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cael eu hamlinellu yn eu fframwaith strategol ar gyfer y cyfnod o 2013 i 2018 sef **gwahaniaeth parhaus ar gyfer treftadaeth a phobl**. Bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn parhau i ariannu prosiectau 'sy'n buddsoddi mewn treftadaeth y mae pobl yn ei werthfawrogi ac ehangu'r amrediad a dyfnder ymgysylltiad pobl gyda threftadaeth' ac a 'fydd yn cyflawni buddiannau hir dymor'. Bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri hefyd yn darparu

arian i ‘gwrdd â meysydd lle mae yna angen o ran treftadaeth strategol’. Y deilliannau a ddymunir o ran y prosiect yw:

Ar gyfer **Treftadaeth**

- Bydd treftadaeth yn cael ei reoli’n well
- Bydd mewn gwell cyflwr
- Bydd yn cael ei ddehongli a’i egluro'n well
- Adnabod/cofnodi

Ar gyfer **Unigolion:**

- Bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth
- Wedi datblygu sgiliau
- Wedi newid eu hagweddau a/neu eu hymddygiad
- Wedi cael profiad pleserus
- Wedi gwirfoddoli amser

Ar gyfer **Cymunedau/Cymdeithas**

- Bydd effeithiau amgylcheddol yn cael eu gostwng
- Bydd mwy o bobl ac amrediad ehangach o bobl wedi ymgysylltu gyda threftadaeth
- Bydd sefydliadau yn fwy gwydn
- Bydd hwb i economïau lleol
- Bydd ardaloedd lleol/cymunedau yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt neu ymweld â hwy.

5.7. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar hyn o bryd yn adolygu ei strategaeth ariannu gyda Fframwaith Ariannu Strategol newydd i gael ei lansio yn nechrau 2019.

6. Strategaeth Dreftadaeth newydd Wrecsam 2018-2028

6.1. **Y Weledigaeth**

‘Galluogi llawn botensial ein treftadaeth i ffynnu, fel y gall gyfrannu cymaint â phosibl a chyfoethogi pob agwedd ar fywyd yn y Fwrdeistref Sirol, er budd y trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd.’

6.2. **Datganiad Cenhadaeth**

‘Bydd y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni drwy warchod, dehongli a hyrwyddo prif asedau treftadaeth yr ardal yn well.’

6.3. Caiff ein hargymhellion eu gosod mewn chwe maes ac mae gan bob un gynigion ar gyfer gweithredu. Mae’r Cynllun Gweithredu ar ddiwedd y strategaeth yn nodi mewn mwy o fanylder beth sydd ei angen i wneud cynnydd ymhob maes a nodir a hefyd yr amserlenni tebygol.

6.4. **Gwella cyd-drefnu ac ymgynghori.**

6.5. Mae yna amrediad eang o sefydliadau ac unigolion gyda chyfrifoldeb dros dreftadaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Er mwyn i’r strategaeth hon wneud gwahaniaeth rydym yn credu fod yna angen i sefydlu corff cyd-drefnu newydd neu bartneriaeth i nodi’r prif anghenion datblygiadol; blaenoriaethu camau gweithredu; nodi cyfleoedd ariannu a chreu’r cysylltiadau pwysig hynny a fydd yn sicrhau fod y strategaeth gyfan yn

gweithio. Rydym yn cynnig fod y bartneriaeth newydd hon yn cael ei sefydlu ar unwaith ac y dylai gwrdd ddwywaith y flwyddyn drwy gydol oes y strategaeth. Bydd aelodaeth ar gael i unrhyw un gyda diddordeb, ond gofynnir am sylwadau gan CBSW (Treftadaeth, Cadwraeth, Cynllunio, Addysg a Rheoli Cyrchfan); Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo; Cadw; Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys; Cynghorau Cymuned; yr Eglwys yng Nghymru, Grwpiau Treftadaeth (Brymbo, Holt, Partneriaeth Adfywio Cefn Mawr, Ymddiriedolaeth Cymdeithas Glowyr Gogledd Cymru ayb.) a Fforwm Treftadaeth Gogledd Ddwyrain Cymru.

6.6. **Argymhelliad 1: Sefydlu corff cyd-drefnu newydd, 'Partneriaeth Treftadaeth Wrecsam' i yrru'r Strategaeth yn ei blaen.**

6.7. **<u>Nodi Anghenion Cadwraeth.</u>**

6.8. Rhaid i'r dasg o warchod a chadw ein hasedau treftadaeth sy'n goroesi, p'run ai ydynt yn henebion hynafol, adeiladau rhestredig, arteffactau, hanes llafar neu archifol, fod yn egwyddor sylfaenol a gwaelodol unrhyw strategaeth dreftadaeth. Ceir manylion am gadw a gofalu am gasgliadau Amgueddfeydd ac Archifau'r Fwrdeistref Sirol yng Nghynllun Rheoli Casgliadau y gwasanaeth, tra ceir manylion am gwmpas yr hyn rydym yn ei gasglu yn ein Polisïau Caffael a Gwaredu, a gytunwyd ddiwethaf gan y Cyngor yn 2015 ac a fydd yn cael ei adolygu eto tua 2020.

6.9. Yn nhermau henebion hynafol, caiff yr henebion hynny y pennir eu bod o 'bwysigrwydd cenedlaethol' eu hadnabod fel Henebion Cofrestredig ac mae Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) yn gyfrifol amdanynt. Mae tua 10% o'r stoc o henebion hysbys wedi eu hamddiffyn yn gyfreithiol drwy'r dull hwn. O dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 mae'n drosedd os oes unrhyw darfu ar y tir yn digwydd o fewn ardal a warchodir yn gyfreithiol heb ganiatâd Gweinidogion Cymru.

6.10. Mae'r 90% arall o'r henebion hysbys yn cael eu hamddiffyn o dan y broses gynllunio. Yn Wrecsam mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys, fel y curadur archeolegol, yn gweinyddu Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yr ardal, cronfa ddata o safleoedd archeolegol hysbys, ac mae'n monitro ceisiadau cynllunio am wrthdaro posib. Dylid defnyddio'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol i gefnogi penderfyniadau yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol wedi eu seilio ar dystiolaeth. Mae Cadw wedi llunio canllawiau ar sut i'w ddefnyddio. Os oes angen bydd yr Ymddiriedolaeth yn argymell i'r awdurdod cynllunio fod angen cynnal rhaglen benodol o waith archeolegol, i'w ariannu gan y datblygwr, a allai amrywio o asesiad pen desg i gloddio. Caiff hwn ei gynnal gan gontractwyr archeolegol annibynnol sy'n gweithio i friff manwl wedi'i baratoi gan yr Ymddiriedolaeth ei hun.

6.11. Yn achos yr Adeiladau Rhestredig, hynny yw adeiladau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru i fod o bwysigrwydd archeolegol, er o dan arweiniad Cadw caiff y dasg o fonitro a rheoli o ddydd i ddydd ei wneud gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

6.12. Mae cymorth grant ar gyfer prosiectau cadwraeth penodol ar gael gan Cadw ar gyfer gwaith ar Henebion Cofrestredig a gan Cadw a'r Cyngor ar gyfer gwaith ar adeiladau rhestredig. Gall Cronfa Dreftadaeth y Loteri hefyd ddarparu cymorth grant pan fo prosiect yn bodloni eu hamcanion strategol (gweler uchod).

6.13. **Argymhelliad 2: Rydym yn cynnig cynnal archwiliad o'r prif safleoedd er mwyn nodi a chyfrif cost eu hanghenion cadwraeth. Wedyn fe wneir cais am arian i gefnogi rhaglen waith dros gyfnod oes y strategaeth.**

6.14. **<u>Datblygu cysylltiadau rhwng asedau treftadaeth allweddol.</u>**

6.15. Nid yw safleoedd treftadaeth yn bodoli yn ynysig ond gellir eu cysylltu â safleoedd cysylltiedig drwy themâu cyffredin, lleoliadau cyffredin, unigolion amlwg neu ddigwyddiadau pwysig. Er eu bod wedi eu cysylltu'n hanesyddol, gall safleoedd cysylltiedig fod wedi eu gwahanu gan bellter. Gall creu cysylltiadau rhwng safleoedd o'r fath felly hybu amseroedd hirach yn yr ardal ac annog ymweliadau ychwanegol. Byddai hyn o fudd economaidd i bawb, yn arbennig i fusnesau cysylltiedig fel darparwyr llety ac arlwyo. Gallai'r cysylltiadau fyddai'n cael eu creu, er enghraifft, fod ar ffurf llwybrau, llenyddiaeth hyrwyddo, gwefannau, rhwydwaith ibeacon, y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ac arwyddion ffyrdd wedi eu brandio.

6.16. Y Bartneriaeth fyddai'n penderfynu ar y Canolbwyntiau Treftadaeth posib a'r safleoedd oddi fewn iddynt, ond maent yn debygol o ganolbwyntio ar Dreftadaeth Ddiwydiannol, y Gororau, Eglwysi, trefi a phentrefi hanesyddol a Chanol Tref Wrecsam.

6.17. **Argymhelliad 3: Sefydlu rhwydwaith o Ganolbwyntiau Treftadaeth a cheisio ffyrdd newydd a dyfeisgar o gysylltu safleoedd treftadaeth gyda gwasanaethau a busnesau cysylltiedig.**

6.18. **<u>Nodi cyfleoedd datblygu allweddol.</u>**

6.19. Yn ychwanegol at gadwraeth, dehongli a chysylltu safleoedd treftadaeth presennol, mae yna botensial i fynd ymlaen â chyfleoedd datblygu allweddol cysylltiedig â'r model canolbwynt treftadaeth a nodir uchod. Bydd rhaid dyfeisio prosiectau beiddgar i ddenu sylw Croeso Cymru a chyrff ariannu eraill. Bydd angen hefyd i ganolbwyntiau treftadaeth greu cyfleoedd cyflogaeth a chyfrannu at gynnig ymwelwyr rhagorol gyda phwysigrwydd rhanbarthol os ydynt i gael eu cefnogi neu i gael unrhyw hirhoedledd. Mae hyn hefyd yn debygol o fod angen lefel o arian cyfatebol a chefnogaeth gan y strategaeth dreftadaeth hon a'r Cynllun Gweithredu Rheoli Cyrchfan os ydynt i lwyddo.

6.20. **Argymhelliad 4: Nodi a cheisio arian ar gyfer cyfleoedd datblygu allweddol i gryfhau'r canolbwyntiau treftadaeth.**

6.21. **<u>Gwella marchnata a hyrwyddo ein Treftadaeth.</u>**

6.22. Drwy gydol yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r strategaeth hon pwysleisiodd y rhai a ymatebodd bwysigrwydd gwneud cysylltiadau

rhwng y safleoedd treftadaeth eu hunain a busnesau cysylltiedig eraill. Er mwyn i hyn fod yn effeithiol rydym yn credu ei bod yn hanfodol fod brand arbennig yn cael ei ddatblygu i adlewyrchu treftadaeth unigryw yr ardal.

6.23. Gallai'r brand gynnwys logo arbennig yn ogystal â phaled o offer deongliadol yn cynnwys panel graffig a chynlluniau cyhoeddi, ffont a lliwiau.

6.24. Byddai'r brand wedyn yn cael ei ddefnyddio yn y cyfryngau dehongli: y cyfryngau cymdeithasol, cyhoeddiadau, arwyddion ffyrdd a byddai'n ddull effeithiol o gysylltu'r holl atyniadau treftadaeth o dan un faner unedig.

6.25. Ond serch hynny nid oes llawer o bwynt mewn ymgymryd ag ymarferiad brandio oni bai y gellir defnyddio'r brandio hwnnw'n effeithiol. Mae'n bwysig felly ein bod yn gwybod pwy yw ein darpar gwsmeriaid (boed yn ymwelwyr neu ein cymunedau lleol) a'n bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol gyda hwy (yn nhermau'r hyn y maent ei eisiau a dysgu o'u profiadau yn ymweld â'n treftadaeth). Yn nhermau hyrwyddo'r brand bydd arnom hefyd angen llu o ddulliau effeithiol, dyfeisgar a chost effeithiol y gallwn eu defnyddio.

6.26. **Argymhelliad 5: Datblygu 'Brand Treftadaeth' arbennig ar gyfer treftadaeth Wrecsam a cheisio dulliau newydd a dyfeisgar o farchnata a hyrwyddo'r brand.**

6.27. **Annog pobl ifanc i ymgysylltu gyda'u treftadaeth leol.**

6.28. Rydym hefyd yn awyddus i ymgysylltu'n fwy agos gyda phobl ifanc un ai mewn gweithgareddau ffurfiol yn ymwneud â'r ysgol neu ymweliadau a gweithgareddau anffurfiol. Hefyd rydym yn ymwybodol fod tua 75% o'r ysgolion sy'n ymwneud yn rheolaidd ag Amgueddfa Wrecsam o fewn pellter cerdded i'r amgueddfa. Nid yw ysgolion sydd bellach i ffwrdd yn ymweld â safleoedd treftadaeth ac amgueddfeydd neu maent yn ymweld â chyfleusterau sydd bellach i ffwrdd mewn mannau fel Caer, Lerpwl neu Manceinion. Un posibilrwydd fyddai i ysgolion 'fabwysiadu' heneb leol neu Ganolbwynt Treftadaeth; gallant wedyn ddatblygu adnoddau dysgu cysylltiedig â'r safle(oedd), llunio teithiau tywys i bobl leol a hyd yn oed datblygu dehongliad ar y safle.

6.29. **Argymhelliad 6: nodi cyfleoedd addysgol allweddol i gynyddu nifer yr ymweliadau ysgolion ag asedau treftadaeth allweddol.**

7. Crynodeb o'r Argymhellion:

- **WHERIT01: Sefydlu corff cyd-drefnu newydd, 'Partneriaeth Treftadaeth Wrecsam' i yrru'r Strategaeth yn ei blaen;**

- **WHERIT02: Ymgymryd ag archwiliad o'r prif henebion er mwyn nodi a chyfrif cost eu hanghenion cadwraeth. Wedyn fe wneir cais am arian i gefnogi rhaglen waith dros gyfnod oes y strategaeth;**

- **WHERIT03: Sefydlu rhwydwaith o Ganolbwyntiau Treftadaeth a cheisio ffyrdd newydd a dyfeisgar o gysylltu**

safleoedd treftadaeth gyda gwasanaethau a busnesau cysylltiedig;

- **WHERIT04: Nodi a cheisio arian ar gyfer cyfleoedd datblygu allweddol i gryfhau'r Canolbwyntiau Treftadaeth;**

- **WHERIT05: Datblygu 'Brand Treftadaeth' arbennig ar gyfer treftadaeth Wrecsam a cheisio dulliau newydd a dyfeisgar o farchnata a hyrwyddo'r brand;**

- **WHERIT06: nodi cyfleoedd addysgol allweddol i gynyddu nifer yr ymweliadau ysgolion ag asedau treftadaeth allweddol.**

Strategaeth Dreftadaeth Wrecsam 2018-2028

Creu Cysylltiadau

Cynllun Gweithredu

	Argymhellion	Camau Gweithredu	Pam	Yn arwain	Partneriaid	Terfynau Amser
WHERIT01	**Sefydlu corff cyd-drefnu newydd, 'Partneriaeth Treftadaeth Wrecsam' i yrru'r Strategaeth yn ei blaen.**	Sefydlu corff newydd	Angen corff newydd i nodi'r prif anghenion datblygu; blaenoriaethu'r camau gweithredu; nodi cyfleoedd ariannu a chreu cysylltiadau hanfodol a fydd yn sicrhau fod y strategaeth gyfan yn gweithio.	CBSW	Grwpiau Hanes Lleol Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cadw Yr Eglwys yng Nghymru Cynghorau Cymuned Rheoli Cyrchfan AHNE Croeso Cymru Ymddiriedolaeth Cymdeithas Glowyr Gogledd Cymru Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys	Blwyddyn 1
WHERIT02	**Rydym yn cynnig ymgymryd ag archwiliad o'r prif henebion er mwyn nodi a chyfrif cost eu hanghenion cadwraeth. Wedyn fe wneir cais am arian i gefnogi**	Caffael arian Cynnal archwiliad ar gadwraeth a mynediad Comisiynu rhaglen dreigl o waith cadwraeth a mynediad	Sicrhau fod gweddillion ffisegol ein treftadaeth yn cael eu gwarchod er mwyn i genedlaethau'r dyfodol allu eu mwynhau.	CBSW	Grwpiau Hanes Lleol Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cadw Yr Eglwys yng Nghymru	O fewn blwyddyn Blwyddyn 2 Blynyddoedd 3 i 10

	rhaglen waith dros gyfnod oes y strategaeth.				Cynghorau Cymuned Rheoli Cyrchfan AHNE Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys Ymddiriedolaeth Cymdeithas Glowyr Gogledd Cymru Cronfa Dreftadaeth y Loteri	
WHERIT03	**Sefydlu rhwydwaith o Ganolbwyntiau Treftadaeth a cheisio ffyrdd newydd a dyfeisgar o gysylltu safleoedd treftadaeth gyda gwasanaethau a busnesau cysylltiedig.**	Ffurfio cysylltiadau rhwng safleoedd allweddol o fewn pob Canolbwynt Ymgyrchoedd marchnata ar y cyd Datblygu llwybrau gyda themâu	Er mwyn cryfhau'r cynnig i ymwelwyr ac yn y pen draw i gynyddu'r ymgysylltiad gyda threftadaeth.	CBSW	Grwpiau Hanes Lleol Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cadw Yr Eglwys yng Nghymru Cynghorau Cymuned Rheoli Cyrchfan AHNE Croeso Cymru Ymddiriedolaeth Cymdeithas Glowyr Gogledd Cymru Cronfa Dreftadaeth y Loteri	Dros gyfnod y strategaeth sef 10 mlynedd
WHERIT04	**Nodi a cheisio arian ar gyfer cyfleoedd datblygu allweddol.**	Nodi cyfleoedd datblygu allweddol. Ceisio arian Sefydlu rhaglen ddatblygu	Cryfhau'r Canolbwyntiau Treftadaeth drwy nodi cyfleoedd datblygu.	CBSW	Grwpiau Hanes Lleol Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo Yr Ymddiriedolaeth	Blynyddoedd 1 a 2 Blynyddoedd 2 i

					Genedlaethol Cadw Yr Eglwys yng Nghymru Cynghorau Cymuned Rheoli Cyrchfan AHNE Ymddiriedolaeth Cymdeithas Glowyr Gogledd Cymru Croeso Cymru Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys Cronfa Dreftadaeth y Loteri	3 Blynyddoedd 3 i 10
WHERIT05	**Datblygu 'brand treftadaeth' arbennig ar gyfer treftadaeth Wrecsam a cheisio dulliau newydd a dyfeisgar o farchnata a hyrwyddo'r brand.**	Ceisio arian i ddatblygu'r brand newydd. Comisiynu gwaith cynllunio brand Defnyddio'r brand	Bydd datblygu brand treftadaeth arbennig yn cryfhau'r cynnig i ymwelwyr a hybu ymgysylltu.	CBSW	Grwpiau Hanes Lleol Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cadw Yr Eglwys yng Nghymru Cynghorau Cymuned Rheoli Cyrchfan AHNE Ymddiriedolaeth Cymdeithas Glowyr Gogledd Cymru Croeso Cymru Cronfa Dreftadaeth y Loteri	Blwyddyn 1 Blwyddyn 2 Blynyddoedd 3 i 10

WHERIT06	**Nodi cyfleoedd addysgol allweddol i gynyddu nifer yr ymweliadau ysgolion â safleoedd allweddol.**	Nodi cyfleoedd addysgol allweddol Ceisio arian Lansio menter	Cynyddu a gwella lefelau ymgysylltu rhwng treftadaeth ac ysgolion lleol.	CBSW	Grwpiau Hanes Lleol Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cadw Yr Eglwys yng Nghymru Cynghorau Cymuned Rheoli Cyrchfan AHNE Ymddiriedolaeth Cymdeithas Glowyr Gogledd Cymru Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cronfa Dreftadaeth y Loteri	Blwyddyn 1 Blynyddoedd 1 a 2 Blynyddoedd 3 i 10

Creu Cysylltiadau Ffurflen Sylwadau'r Strategaeth Dreftadaeth

ADBORTH

YDYCH CHI'N CYTUNO GYDA'R ARGYMHELLION YN Y STRATEGAETH DDRAFFT?

YDW [ ] **NAC YDW [ ]**

OS NA, BETH FYDDECH CHI'N EI DDIDDYMU NEU'N EI NEWID? BETH FYDDECH CHI'N EI YCHWANEGU?

UNRHYW SYLWADAU ERAILL?

Gallwch barhau ar dudalen ychwanegol os oes angen.

Manylion Cyswllt –

Rhif ffôn -

Cyfeiriad -

Ebost -

Anfonwch eich sylwadau at: Steve Grenter, yr Arweinydd Treftadaeth ac Archifau, Amgueddfa Wrecsam, Stryt y Rhaglaw, Wrecsam, LL11 1RB. Os oes gennych unrhyw ymholiadau e-bostiwch steve.grenter@wrexham.gov.uk os gwelwch yn dda.